# NI YW
# #METCAERDYDD

**Gwybodaeth am Sefydlu a Chofrestru**

**BSc (Anrh) SEICOLEG**

**YSGOL CHWARAEON A GWYDDORAU IECHYD CAERDYDD**

**Blwyddyn Academaidd 2018/19**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**C Y N N W Y S**


1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

2. Tasg Cyn Sefydlu

3. Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

4. Amserlen yr Wythnos Sefydlu

5. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol

6. Dolenni Defnyddiol

## 1. Croeso gan eich Tîm Addysgu


**Croeso i'r Adran Seicoleg Gymwysedig**

Croeso cynnes iawn i radd BSc (Anrh) Seicoleg.

Byddwch yn ymuno â chymuned o 400 o fyfyrwyr sy'n astudio ar amrywiaeth o raglenni gradd, o lefel sylfaen hyd at raglenni ôl-raddedig a doethurol. Mae 24 o aelodau o staff academaidd yn yr adran, a bydd eu haddysgu a'u hymchwil yn cyfoethogi eich profiad o seicoleg yma.

Cewch y cyfle i ddatblygu eich dealltwriaeth o seicoleg a'r ffordd o'i gymhwyso mewn darlithoedd, seminarau a gweithdai a thrwy sgyrsiau mwy anffurfiol mewn clwb seicoleg a gyda thiwtoriaid. Rydym yn darparu amgylchedd lle bydd eich sgiliau academaidd, proffesiynol a chymdeithasol yn ffynnu. Mae Caerdydd, fel prifddinas Cymru gyda phoblogaeth fawr o fyfyrwyr, wedi'i lleoli'n dda i ddiwallu eich holl anghenion a'ch galluogi i ddatblygu ffrindiau am oes.

Yn olaf, ar ran y tîm seicoleg edrychaf ymlaen at eich croesawu'n bersonol yn ystod Wythnos y Glas ym mis Medi. Rwy'n eich annog i chwarae rhan lawn yn yr Ysgol a manteisio ar bob cyfle a roddir i chi. Rwy'n siŵr y bydd eich amser yn y Brifysgol hon yn fuddiol iawn ac yn ddechrau perthynas am oes gyda ni.



Dr Debbie Clayton, PhD, BSc (Anrh), MBPsS, FHEA

## 2. Tasg Cyn Sefydlu

Yr hyn rydym yn credu sydd bwysicaf wrth i chi ddechrau eich astudiaethau gyda ni, yw eich bod yn cyrraedd yn barod i fanteisio ar yr holl gyfleoedd a fydd yno i chi fel myfyriwr israddedig. Gwyddom y gall dechrau yn y Brifysgol fod yn gyfnod prysur, ac felly'n fwy na dim, rydym yn gobeithio eich bod wedi cael gwyliau haf da cyn dechrau. Fodd bynnag, rydym yn deall a byddem yn annog darllen am seicoleg a byddem yn argymell y canlynol fel llyfr testun cyflwyniad da.

Nolen-Hoeksema, S.N., Fredrickson, B.L., Loftus, G.R. a Lutz, C. (2014) *Atkinson & Hilgards's Introduction to Psycholog*y (16fed Argraffiad). Hampshire: Cengage Learning.
https://www.cengage.co.uk/books/9781408089026/

**Yn ogystal â:**

Coolican, H. (2014) Research Methods and Statistics in Psychology. Chweched Argraffiad. Llundain: Hodder a Stoughton.

Bydd edrych drwy'r rhain yn rhoi syniad i chi o'r hyn i'w ddisgwyl o ran pynciau a chynnwys y radd! Mae'r testun Cyflwyno yn ddefnyddiol fel ffordd o gael trosolwg o'r ddisgyblaeth ac mae'n fan cychwyn da ar gyfer nifer o bynciau, a bydd testun Coolican yn eich helpu i feddwl sut mae seicolegwyr yn cynnal ymchwil er mwyn egluro ein rhyngweithiadau â'r byd ac â'n gilydd. Byddwch yn cael mwy o argymhellion penodol wrth gwrdd â staff y modiwl ar ddechrau'r tymor.

## 3. Cofrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

Mae cofrestru yn broses bwysig sy'n cadarnhau eich statws fel Myfyriwr. Gallwch gwblhau'r broses gofrestru ar-lein eich hun o unrhyw gyfrifiadur drwy ein system Hunanwasanaeth. Noder er mwyn hunangofrestru; mae'n ofynnol bod gennych gynnig Diamod Cadarn.

Cewch neges e-bost yn eich hysbysu pan fyddwch yn gymwys i gofrestru ar-lein. Bydd y neges e-bost yn eich cyfeirio at gyfleuster ailosod cyfrinair er mwyn i chi ofyn am gyfrinair i'ch galluogi i fewngofnodi a chwblhau'r broses gofrestru. Er mwyn cael gwybodaeth ac arweiniad ar y broses hon gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'n tudalen gofrestru - www.cardiffmet.ac.uk/enrolment.

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn caniatáu i chi gael gafael ar eich benthyciad myfyriwr (os gwnaethoch gais am un), talu ffioedd, defnyddio systemau TG Met Caerdydd a chael eich MetCard.

Byddwch hefyd yn cael dolen i Lawlyfr y Rhaglen yn ystod yr Wythnos Sefydlu.

**Cofrestru ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol o'r tu allan i'r UE**

Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE), **ni fydd** angen i chi gofrestru ar-lein cyn cyrraedd Prifysgol Met Caerdydd. Mae hyn oherwydd ei bod yn ofyniad cyfreithiol i'r brifysgol wirio dogfennau mewnfudo myfyrwyr rhyngwladol cyn y caniateir iddynt gofrestru ar eu cyrsiau. I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru fel myfyriwr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd angen i chi ddod â nhw gyda chi, ewch i'r tudalennau myfyrwyr rhyngwladol neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo yn immigrationregs@cardiffmet.ac.uk Ffôn: 029 2041 5644.

**Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth**

Byddwch yn gallu defnyddio Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan ar ôl i chi gwblhau cofrestru ar-lein. Cewch neges e-bost yn cadarnhau hyn a fydd yn cynnwys eich manylion mewngofnodi i Met Caerdydd. Er mwyn gweld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library.

**Eich Cerdyn Myfyriwr MetCard**

Nodir amser penodol i chi gasglu eich MetCard yn y wybodaeth am yr **Wythnos Sefydlu.** Mae eich MetCard yn rhoi mynediad i chi i holl brif adeiladau a drysau'r campws. Gallwch hefyd ychwanegu arian at eich MetCard er mwyn gallu talu am ddefnyddio'r argraffwyr hunanwasanaeth, copïwyr a gwasanaethau'r Stiwdio Argraffu. I gael rhagor o wybodaeth am fanteision MetCard cliciwch yma**.**

**Ffioedd**

Ffioedd eich rhaglen ar gyfer mis Medi 2018 yw £9,000. Os oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'ch rhaglen, byddant wedi'u rhestru ar www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts. Dylech eisoes fod yn ymwybodol o'r costau hyn.

Ceir manylion am ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) yma.

## 4. Amserlen yr Wythnos Sefydlu

Bydd eich semester cyntaf fel myfyriwr newydd yn dechrau gyda'r Wythnos Sefydlu, lle byddwch yn ymgyfarwyddo â'ch llety, y cwrs a bywyd myfyriwr. Mae eich amserlen ar gyfer yr Wythnos Sefydlu yn cynnwys digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio i'ch croesawu i Brifysgol Met Caerdydd, a'ch helpu i ymgyfarwyddo â'r cyfleusterau a'ch cyd-fyfyrwyr. Byddwch yn cael y cyfle i fynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ymwneud â'ch cwrs, gwasanaethau llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrwyr ac undeb y myfyrwyr. Byddwch hefyd yn cwrdd â'ch tiwtor personol, ac yn cael sawl sesiwn gydag ef neu hi, i wneud y broses bontio academaidd mor esmwyth â phosibl.

Mae ffair y glas lle y gallwch gofrestru â nifer o gymdeithasau a chlybiau gwahanol, a digwyddiad cymdeithasol METFest brynhawn dydd Gwener.

**Peidiwch ag anghofio cymryd rhan ar Twitter gyda** ni yw #metcaerdydd**.**

Os ydych yn newydd i Gaerdydd, bydd digon o gyfleoedd hefyd i chi grwydro'r ddinas, gwneud ffrindiau newydd ac ymgyfarwyddo â'ch bywyd newydd.

Mae'r Wythnos Sefydlu yn achlysur mawr ar y campws ac mae pawb yn cymryd rhan. Peidiwch â bod ofn stopio a gofyn - mae'r holl staff a myfyrwyr yn hapus i groesawu unrhyw un sy'n newydd ar y campws.

Mae eich amserlen digwyddiadau yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd, a chaiff ei lanlwytho fel dogfen ar wahân ar ein tudalennau Myfyrwyr Newydd i chi.

## 4. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol

Yn ystod blwyddyn gyntaf y radd (Lefel 4) byddwch yn astudio chwe modiwl gorfodol. Bydd y modiwlau hyn yn rhoi dealltwriaeth eang i chi o seicoleg ac yn eich helpu i ddatblygu sgiliau seicoleg penodol wrth baratoi ar gyfer ail flwyddyn eich astudiaethau.

Modiwlau ac asesiadau Lefel 4:

| **Modiwl** | **Asesiad (nifer yr asesiadau X cyfrif geiriau)** | **Arholiad** |
|---|---|---|
| Llythrennedd Seicolegol: Sgiliau ar gyfer Dysgu a Gwaith | Cyfres o ysgrifennu myfyriol<br>CV a chyflwyniad | |
| Dulliau Ymchwil | 4 adroddiad x 1500<br>1X panel cyfranogwyr | |
| Dadansoddi Data | 1 x portffolio canlyniadau<br>1 x prawf SPSS | 1 x 2 awr |
| Seicoleg Datblygiadol 1 | 1 traethawd x 1500 | 1 x 2 awr |
| Seicoleg Cymdeithasol 1 | 1 traethawd x 1500 | 1 x 2 awr |
| Yr Ymennydd a Gwybyddiaeth | 1 x prawf MCQ | 1 x 2 awr |

Cefnogir pob modiwl gan ddarlithoedd a seminarau neu weithdai. Disgwylir i chi fynychu pob sesiwn addysgu.

## 5. Dolenni Defnyddiol

Ymholiadau pellach i:
Dr Debbie Clayton - dclayton@cardiffmet.ac.uk
Swyddfa Weinyddol yr Ysgol - Cardiffschoolofhealthsciences@cardiffmet.ac.uk

Tudalennau gwe a chyfryngau cymdeithasol Seicoleg:

| | |
|---|---|
| Prif wefan: | http://www.cardiffmet.ac.uk/health/Pages/Psychology.aspx |
| Tudalen Facebook: | https://www.facebook.com/PsychologyAtCardiffMet |
| Ffrwd Twitter: | https://twitter.com/PsychCardiffMet |
| Blog: | http://psychcardiffmet.wordpress.com/ |

- Amserlen
  Bydd y ddolen hon yn rhoi mynediad i chi i'ch amserlen derfynol. Bydd angen i chi gofrestru cyn y gallwch gael mynediad i'r ddolen hon, a byddwn yn cysylltu â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

- Cyrsiau â Chostau Ychwanegol
  Ystyr costau ychwanegol yw'r treuliau gorfodol neu ddewisol, yn ychwanegol at ffioedd dysgu, y mae angen i fyfyrwyr eu talu er mwyn cymryd rhan lawn yn eu hastudiaethau a chwblhau'r astudiaethau hynny. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cyfarpar, teithiau, lleoliadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan bob rhaglen gostau ychwanegol gwahanol.

- Y Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau
  Cyngor ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE ar wneud cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety neu fanteisio ar y Gwasanaeth Croeso yn y Maes Awyr. Bydd y Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau yn darparu cymorth lles a chyngor dysgu drwy gydol eich cwrs.

- Llety
  Gall myfyrwyr symud i mewn i Neuaddau o ddydd Gwener 14 Medi ond dim ond y rheini sydd wedi cwblhau'r broses gofrestru yn llwyddiannus fydd yn cael mynediad i'r rhyngrwyd. Cynhelir digwyddiadau o'r diwrnod y byddwch yn cyrraedd a thrwy gydol yr Wythnos Sefydlu. Bydd yr Adran Llety yn anfon gwybodaeth atoch pan fydd y digwyddiadau wedi'u cadarnhau.

- Gwasanaethau Myfyrwyr
  Er mwyn cael cymorth yn ystod eich cyfnod gyda ni o ran iechyd, lles, ffordd o fyw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch er mwyn sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosibl. Mae'r gwasanaethau hefyd yn cynnwys cwnsela, anabledd a chaplaniaeth.

- Cyllid Myfyrwyr
  Er mwyn cael gwybodaeth am Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a benthyciadau Cynhaliaeth, grantiau nad oes rhaid eu had-dalu, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a allai fod ar gael.

- Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd

- Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd*gan gynnwys gwybodaeth i lasfyfyrwyr a bandiau garddwrn*

- Dyddiadau'r Tymhorau

**Dolenni Defnyddiol (parh.)**

- Mapiau o'r Campysau, Cysgodfannau Beiciau a Met Rider
  Mae Met Caerdydd yn cynnig gwasanaeth bws ei hun o'r enw Met Rider. Anfonir ffurflen gais atoch gyda'ch Gwybodaeth am Sefydlu a Chofrestru. Mae gennym hefyd gysgodfannau Storio Beiciau ar bob campws, gydag ystafelloedd newid a chawodydd. Mae'r cysgodfannau yn ddiogel a rhaid i chi ddangos eich MetCard i'w defnyddio, ond mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd drwy'r i-zone yn gyntaf.

- Cynllun Tacsi Diogel
  Mae Met Caerdydd yn gweithredu cynllun Tacsi Diogel gyda Dragon Taxis sy'n sicrhau bod gennych ffordd o gyrraedd adref bob amser.

- Teithiau Rhithwir
  Edrychwch ar ein campws a'n cyfleusterau eto drwy ddefnyddio ein teithiau tywys rhithwir

- Llawlyfr Myfyrwyr

- Llawlyfr Academaidd

- Partneriaeth Santander a changen ar y campws
  Bydd cyfle i fyfyrwyr agor cyfrif Santander yn ystod Ffair y Glas. Bydd angen prawf adnabod gyda llun arnoch er mwyn gwneud hyn.

- Polisi Derbyn